**Adroddiad i:** Y Pwyllgor Archwilio Perfformiad

**Dyddiad y Cyfarfod:** 21 Chwefror 2013

**Awdur yr Adroddiad:** Y Cydlynydd Archwilio

**Teitl:** Rhaglen Waith Archwilio

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r flaen raglen waith ddrafft i aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ei hystyried.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Adolygu a chytuno blaen rhaglen waith y Pwyllgor a chyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch materion perthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

3.1 yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir ac yn cymeradwyo, adolygu neu newid ei flaen raglen waith yn ôl y gofyn; ac

3.2 yn enwebu Aelod i wasanaethu fel ei gynrychiolydd ar y Grŵp Herio Perfformiad Gwasanaeth 'Cwsmeriaid'.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Erthygl 6 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn dangos cylch gorchwyl, gwaith ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio ac mae rheolau gweithdrefnau pwyllgorau archwilio i'w gweld yn Rhan 4 y Cyfansoddiad.

4.2 Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i'w Bwyllgorau Archwilio baratoi a pharhau i adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Drwy adolygu a blaenoriaethu'r pynciau, mae'r aelodau'n gallu sicrhau fod y rhaglen waith yn cael ei datblygu fel agenda sy'n cael ei harwain gan yr Aelodau.

4.3 Ers nifer o flynyddoedd mae pwyllgorau archwilio Sir Ddinbych wedi mabwysiadu'r ymarfer o gyfyngu ar y nifer o adroddiadau i'w hystyried mewn unrhyw un cyfarfod i ddim mwy na phedwar, heb gyfrif adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hunan. Nod hyn yw hyrwyddo trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob pwnc.

4.4 Gofynnir i'r Pwyllgor felly, ystyried ei raglen waith ddrafft ar gyfer

cyfarfodydd y dyfodol y mae ei manylion yn Atodiad 1, a'i chymeradwyo, ei hadolygu neu'i newid yn ôl y gofyn ar ôl ystyried:

- materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor,
- materion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio
- y perthnasedd i flaenoriaethau'r Cyngor / cymunedol y Pwyllgor
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- llwyth gwaith cyfarfodydd
- amserlenni
- canlyniadau
- materion a gwybodaeth allweddol i'w cynnwys yn yr adroddiad
- swyddogion a / neu aelodau'r Cabinet y dylid eu gwahodd (gan ystyried a fyddai'u presenoldeb yn angenrheidiol neu a fyddai'n ychwanegu gwerth)
- cwestiynau i'w cyflwyno i swyddogion / aelodau arweiniol y Cyngor

4.5 Wrth ystyried eitemau i'w cynnwys ar y flaen raglen waith yn y dyfodol, efallai y bydd o gymorth i'r aelodau ystyried y cwestiynau canlynol wrth benderfynu a yw pwnc yn addas ai peidio ar gyfer ei gynnwys ar y rhaglen waith:

- beth yw'r broblem?
- pwy yw'r rhanddeiliaid?
- beth sy'n cael ei ystyried mewn mannau eraill
- beth mae archwilio angen ei wybod? a
- pwy a allai fod o gymorth?

4.6 Fel y soniwyd ym mharagraff 4.2 uchod, mae Cyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i Bwyllgorau Archwilio baratoi a pharhau i adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, mae'n rhaid i swyddogion, os ydyn nhw o'r farn fod y pwnc yn haeddu amser trafod ar agenda busnes y Pwyllgor, ofyn yn ffurfiol i'r Pwyllgor ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. Gwneir hyn trwy gyflwyno 'ffurflen gynnig' i egluro diben, pwysigrwydd a chanlyniadau posibl y materion a argymhellir. Mae un ffurflen cynnig wedi'u cyflwyno i'w ystyried yn y cyfarfod hwn. Mae'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried hunan asesiad drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol o berfformiad y Gwasanaeth am 2012 – 2013 a'r meysydd ar gyfer gwella am 2013 – 14 o dan Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor (gweler Atodiad 2) cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

<u>Blaen Raglen Waith y Cabinet</u>

4.7 Wrth benderfynu ar eu rhaglen o waith yn y dyfodol mae'n ddefnyddiol i'r pwyllgorau archwilio dalu sylw i raglen waith sydd wedi'i threfnu ar gyfer y Cabinet . At y diben yma, mae copi o flaen raglen waith y Cabinet ynghlwm fel Atodiad 3.

4.8 Cynnydd ar Benderfyniadau’r Pwyllgor
Mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cyflwyno gwybodaeth i aelodau ynghylch eu cynnydd wedi'i atodi yn Atodiad 4 yr adroddiad hwn.

## 5. Grŵp Archwilio Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion

5.1 O dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Archwilio Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn perfformio rôl pwyllgor cydlynu. Cyfarfu’r Grŵp ar 24 Ionawr ac yn y cyfarfod hwnnw penderfynwyd y dylid trefnu adroddiad ar Fentrau Cefndy ar flaen raglen waith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 23 Mai 2013 a chynnwys y meysydd a restrir yn Atodiad 1 (gweler eitem 2 y cyfarfod ar 23 Mai). Gofynnir i’r Pwyllgor gadarnhau’r trefniad yma.

## 6. Grwpiau Her Perfformiad Gwasanaeth

Mae’r Pwyllgor eisoes wedi penodi nifer o aelodau i wasanaethau fel ei gynrychiolwyr ar Grwpiau Cynllunio Busnes Gwasanaeth a Herio Perfformiad y Cyngor. Pan wnaethpwyd y penodiadau hynny roedd ‘Cwsmeriaid’ yn cael ei gynnwys yng Ngrŵp Cynllunio Busnes a Herio Perfformiad y Gwasanaethau Addysg a phenodwyd y Cynghorydd Arwel Roberts gan y Pwyllgor fel ei gynrychiolydd. Fodd bynnag, gan fod ‘Cwsmeriaid’ erbyn hyn yn ffurfio rhan o un o saith blaenoriaeth gorfforaethol y cyngor am y cyfnod 2012 – 17, at ddiben proses Cynllunio Busnes Gwasanaeth a Herio Perfformiad, mae ‘Cwsmeriaid’ wedi’i wahanu oddi wrth y Gwasanaethau Addysg. Ar sail hynny, gofynnir i’r Pwyllgor ystyried enwebu Aelod i fod yn gynrychiolydd ar y Grŵp Herio Perfformiad Gwasanaeth ‘Cwsmeriaid’.

## 7. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd archwilio effeithiol o gymorth i’r Cyngor darparu’i flaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion y gymuned a dymuniadau’r trigolion Bydd datblygu ac adolygu rhaglen waith gydlynedig o gymorth i’r Cyngor wrth fonitro ac adolygu materion ynghylch polisi.

## 8. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Efallai y bydd angen i wasanaethau ddyrannu amser swyddogion i gynorthwyo’r Pwyllgor gyda’r gweithgareddau a nodir yn y flaen raglen waith ac ar gyfer unrhyw waith a fydd yn codi o ganlyniad i ystyried yr eitemau hynny.

## 9. Pa ymgynghori a wnaed?

Dim ar gyfer yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae’r adroddiad ei hunan ac o ystyried y flaen raglen waith yn ynddynt eu hunain yn

broses o ymgynghori gyda'r Pwyllgor mewn perthynas â'i flaen raglen waith.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau? .**

Ni nodwyd unrhyw risgiau mewn perthynas ag ystyried blaen raglen waith y Pwyllgor. Fodd bynnag, wrth adolygu'i flaen raglen waith yn rheolaidd, gallai'r Pwyllgor sicrhau fod meysydd risg yn cael eu hystyried a'u harchwilio pryd maen nhw'n cael eu nodi, a bod argymhellion yn cael eu cyflwyno gyda'r bwriad o dalu sylw i'r risgiau hynny.

**11. Yr Hawl i Benderfynu**

Mae Erthygl 6.3.7 o Gyfansoddiad y Cyngor yn gofyn i'w Bwyllgorau Archwilio baratoi a pharhau i adolygu rhaglen ar gyfer eu gwaith yn y dyfodol.

**Swyddog Cyswllt:**
Y Cydlynydd Archwilio
Rhif Ffôn: (01824) 712554
E-bost: dcc_admin@sirddinbych.gov.uk